Home Office | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Canllawiau

Hysbysiadau Diogelu rhag Cam-drin Domestig a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig

Hydref 2026

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i ymarferwyr cyfreithiol ac asiantaethau cynghori ar Hysbysiadau Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPNs) a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPOs), i'w helpu i baratoi ar gyfer ymgymryd â gwaith achos DAPO. Gellir diweddaru'r canllawiau hyn yn ôl yr angen.

Gweler yr adran Cymorth Cyfreithiol i gael gwybodaeth am y cymorth cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer hysbysiadau DAPO.

Cynnwys

Canllawiau 0
Hysbysiadau Diogelu rhag Cam-drin Domestig a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig 0
Hydref 2026 0
Trosolwg o Hysbysiadau a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig 2
Pa lysoedd fydd yn delio â DAPOs 2
Nodweddion allweddol DAPO 4
Cymorth cyfreithiol 5
Amodau ar gyfer gwneud DAPO 7
Gwneud DAPO heb rybudd 7
Gwaharddiadau, cyfyngiadau a gofynion cadarnhaol 8
Darpariaethau allweddol 8
Gwaharddiadau 9
Gofynion cadarnhaol 11
Gofynion monitro electronig 11
Gofynion hysbysu gorfodol 12
Cwmpas y gofynion hysbysu 12
Troseddau'n ymwneud â hysbysu 13
Amrywio neu ddiddymu DAPO 13
Hysbysiadau gan y llys teulu a sifil 15
Torri amodau DAPO 16
Delio â thor-amod fel dirmyg llys sifil 16
Tor-amod sy'n digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr 17
Apeliadau 17
Sut mae DAPOs yn cyd-fynd â'r dirwedd gorchmynion bresennol 19
Tabl cryno o gymhariaeth NMO Vs DAPO 23

Trosolwg o Hysbysiadau a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig

Cafodd Deddf Cam-drin Domestig 2021[1] (y Ddeddf DA) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021. Mae Rhan 3 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn cyflwyno Hysbysiadau Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPNs) a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig (DAPOs) fel mesurau diogelu sifil newydd. Mae DAPNs a DAPOs yn bolisi ar y cyd a rennir rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref.

Nod y DAPO yw dod ag elfennau cryfaf y drefn gorchmynion diogelu bresennol at ei gilydd mewn un gorchymyn cynhwysfawr a hyblyg i roi amddiffyniad tymor hwy i ddioddefwyr pob math o gam-drin domestig. **Ein bwriad yw i'r DAPO ddod yn orchymyn diogelu dewis cyntaf ar gyfer cam-drin domestig.**

Mae DAPOs wedi cael eu treialu ers mis Tachwedd 2024 ym Manceinion Fwyaf, tair bwrdeistref yn Llundain (Croydon, Bromley a Sutton) a gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn yr ardaloedd hynny. Cafodd DAPOs eu hehangu i Cleveland a Gogledd Cymru yng Ngwanwyn 2025.

O 25 Tachwedd 2026, bydd DAPNs a DAPOs ar gael ym mhob ardal heddlu a llys ledled Cymru a Lloegr. Mae gorchmynion diogelu eraill, gan gynnwys Gorchmynion Peidio â Molestu (NMOs), Gorchmynion Meddiannaeth, Gorchmynion Atal a Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio (SPOs), yn dal ar gael pan fydd y gofynion statudol perthnasol mewn perthynas â'r gorchmynion diogelu hynny'n cael eu bodloni.

Bydd Hysbysiadau Diogelu rhag Trais Domestig (DVPNs) a Gorchmynion Diogelu rhag Trais Domestig (DVPOs) yn cael eu cadw am gyfnod pontio cychwynnol o chwe mis ar ôl dechrau cyflwyno'r DAPO yn genedlaethol ar 25 Tachwedd 2026.

Y DAPO yw'r gorchymyn cyntaf sydd ar gael ym mhob awdurdodaeth llys (troseddol, teulu a sifil) sy'n darparu llwybrau llys gwahanol i'r gorchymyn i ddioddefwyr ac opsiwn i nodi'r llwybr mwyaf priodol. Roedd y penderfyniad i sicrhau bod DAPOs ar gael ym mhob llys yn deillio o adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Cam-drin Domestig drafft a phasio'r Ddeddf Cam-drin Domestig wedi hynny, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi mwy o hyblygrwydd i ddioddefwyr gael gafael ar orchymyn diogelu a chaniatáu i drydydd partïon gael yr opsiwn i wneud cais ar ran dioddefwyr.

Pa lysoedd fydd yn delio â DAPOs

DAPOs dan arweiniad yr heddlu yn y llysoedd ynadon

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents/enacted

Fel y DVPN presennol, mae'r DAPN yn hysbysiad a roddir gan yr heddlu y gellir ei ddefnyddio i roi amddiffyniad i ddioddefwyr ar unwaith yn dilyn digwyddiad o gam-drin domestig. Gall osod gwaharddiadau a gofynion sy'n angenrheidiol i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig yn y dyfodol neu'r risg o gam-drin domestig, megis gwahardd y cyflawnwr honedig rhag dod o fewn pellter penodedig i gartref y dioddefwr. Os bydd yr heddlu'n rhoi DAPN, rhaid iddynt wedyn wneud cais am DAPO i'r llys ynadon, a rhaid i'r cais hwn gael ei glywed gan y llys o fewn 48 awr i gyhoeddi'r DAPN. Os oes gohiriad, mae'r DAPN yn parhau i fod yn ddilys hyd nes y gwneir DAPO. Gall yr heddlu hefyd wneud cais am DAPO annibynnol heb roi DAPN o gwbl.

DAPOs yn y llys teulu

Mae DAPOs ar gael ar gais y dioddefwr neu unrhyw drydydd parti gyda chaniatâd y llys. Mae hefyd ar gael ar gais y dioddefwr mewn unrhyw achos teulu sy'n mynd rhagddo lle nad oes rhaid iddo fod yn gysylltiedig â cham-drin domestig (lle mae'r dioddefwr a'r cyflawnwr eisoes yn bartïon i'r achos hwnnw) neu ar gynnig y llys ei hun mewn achos o'r fath. Mae hyn yn golygu y gall dioddefwr sydd eisoes yn ymwneud ag achos teulu, er enghraifft achosion plant, wneud cais am DAPO yn yr achosion hynny yn hytrach na chyhoeddi cais unigol ar wahân. Mae'r weithdrefn ar gyfer DAPOs teulu yn debyg i'r prosesau presennol a ddefnyddir ar gyfer NMOs, gydag elfennau o geisiadau trydydd parti y gallai ymarferwyr cyfreithiol fod yn gyfarwydd â nhw, drwy orchmynion fel Gorchmynion Diogelu rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

DAPOs yn y llysoedd sifil (sirol)

Mae DAPOs ar gael mewn amgylchiadau cyfyngedig mewn achosion sifil, fel gorchymyn ategol yn unig - mewn achosion llys sirol parhaus sydd wedi'u nodi mewn rheoliadau[2], gan gynnwys rhai mathau o achosion eiddo, ariannol, cyflogaeth, anaf personol a gwaharddeb amddiffynnol, a lle mae'r person sydd i'w amddiffyn a'r cyflawnwr yn bartïon yn yr achosion hynny.

DAPOs mewn achosion troseddol (llysoedd ynadon neu Lys y Goron)

Mae DAPOs ar gael mewn achosion troseddol (llysoedd ynadon neu Lysoedd y Goron) fel gorchymyn ategol, ar euogfarn neu ryddfarn am drosedd, mewn ffordd debyg i'r ffordd y mae Gorchymyn Atal ar gael ar hyn o bryd.

Cwmpas y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at ymarferwyr a fydd yn cynghori cleientiaid sy'n ymwneud ag achosion DAPO llysoedd teulu a sifil (sirol). Cyhoeddir

[2] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/253/made

canllawiau DAPO statudol ar wahân ar gyfer yr heddlu ar GOV.UK. Mae canllawiau'r heddlu'n canolbwyntio'n fanylach ar DAPOs dan arweiniad yr heddlu yn y llysoedd ynadon.

Nodweddion allweddol DAPO

1. **Cwmpas ehangach:** Gellir defnyddio DAPNs a DAPOs i amddiffyn dioddefwyr rhag pob math o gam-drin domestig fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig, nid dim ond rhag trais corfforol neu fygythiad o drais corfforol. Gall hyn gynnwys cam-drin rhywiol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, cam-drin economaidd, a cham-drin seicolegol neu emosiynol.

2. **Hyd:** Nid oes gan y DAPO isafswm nac uchafswm hyd. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r llysoedd roi'r amddiffyniad sydd ei angen ar ddioddefwyr cyhyd ag y bo angen.

3. **Torri gofynion:** Mae torri unrhyw ofyniad DAPO heb esgus rhesymol yn drosedd, gydag uchafswm cosb o hyd at 5 mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau. Gellir ymdrin â thorri gofynion hefyd fel dirmyg llys sifil.

4. **Mynediad:** Mae DAPOs ar gael mewn achosion teulu, sifil a throseddol fel y nodir uchod.

5. **Gwaharddiadau**: gall y DAPO gynnwys gwaharddiadau fel ardaloedd dan waharddiad, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n gwahardd y cyflawnwr rhag mynd i ardaloedd penodol.

6. **Gofynion Cadarnhaol**: gall y rhain fod yn seiliedig ar raglenni neu heb fod yn seiliedig ar raglenni ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflawnwr gymryd camau penodol. O'r adeg cyflwyno, ni fydd llysoedd teulu a sifil yn gallu gosod gofynion cadarnhaol sy'n seiliedig ar raglenni. Byddant ar gael ar gyfer DAPOs dan arweiniad yr heddlu a DAPOs a wneir mewn achosion troseddol. Bydd gofynion cadarnhaol nad ydynt yn seiliedig ar raglenni ar gael ar draws holl awdurdodaethau'r llysoedd.

7. **Monitro Electronig (EM):** Mae'r Ddeddf DA yn darparu ar gyfer gosod gofynion monitro electronig fel rhan o DAPO i gefnogi'r gwaith o fonitro cydymffurfiad cyflawnwr â gofynion eraill y gorchymyn (e.e. monitro cydymffurfiad ag ardal dan waharddiad o amgylch tŷ'r dioddefwr). Nid yw'r seilwaith sydd ei angen i ddarparu monitro electronig ar gael yn gyson eto ledled Cymru a Lloegr ac felly nid yw ar gael ar hyn o bryd ar gyfer DAPO.

8. **Gofynion hysbysu gorfodol (hysbysu am enw a chyfeiriad)**: Rhaid i'r cyflawnwr roi gwybod i'r heddlu am ei enw a'i gyfeiriad o fewn tri diwrnod i'r

diwrnod y gwneir y DAPO, ac unrhyw newidiadau i'r manylion hyn o fewn tri diwrnod i'r newid. Bydd methu â chydymffurfio yn golygu torri amodau'r gorchymyn. Bydd pob DAPO yn cynnwys y gofyniad hwn yn awtomatig.

9. **Ymwybyddiaeth yr heddlu:** Mae DAPOs a wneir yn y llys teulu yn cael eu hysbysu i'r heddlu a'u lanlwytho i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) yn uniongyrchol gan Swyddfa Cofnodion Troseddol ACRO (uned heddlu genedlaethol).

10. **Plant:** Yn wahanol i NMOs, dim ond unigolyn 16 oed neu hŷn y gall DAPOs ei amddiffyn yn uniongyrchol, er bod yn rhaid i'r llys ystyried lles plant perthnasol y mae eu buddiannau'n berthnasol i wneud y gorchymyn.

Cymorth cyfreithiol

Cefndir

Mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer DAPOs ar gyfer ceiswyr, cyflawnwyr a thrydydd partïon cymwys (lle bo hynny'n berthnasol) (h.y. unigolion sydd â chaniatâd y llys i wneud cais am DAPO ar ran rhywun arall) yn amodol ar y profion modd a theilyngdod perthnasol. Isod ceir crynodeb lefel uchel o sut y bydd cymorth cyfreithiol sifil a throseddol yn berthnasol i DAPNs a DAPOs ar draws gwahanol lysoedd.

Cymorth Cyfreithiol Sifil

Gan mai gorchmynion sifil yw DAPOs, mae cymorth cyfreithiol sifil ar gael ar gyfer:

- y ceisydd (ac os yw'n wahanol, y person y ceisir y gorchymyn er mwyn ei amddiffyn); a
- y cyflawnwr (y person y gwneir gorchymyn diogelu rhag cam-drin domestig yn ei erbyn), ac eithrio o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn yr adran cymorth cyfreithiol troseddol.

Fel gorchmynion aml-awdurdodaeth, mae cymorth cyfreithiol sifil ar gael ar draws y llysoedd sirol, teulu, ynadon a'r Uchel lysoedd, ac yn achos apeliadau, Llys y Goron a'r Llys Apêl.

Yn achos DAPO dan arweiniad yr heddlu yn y llysoedd ynadon, mae cyngor a chymorth cyfreithiol ar gael i'r unigolyn sydd i'w ddiogelu (gan y byddai'r cais DAPO ei hun yn cael ei arwain gan yr heddlu). Er bod cymorth cyfreithiol ar gael yn amodol ar brawf modd a theilyngdod, bydd yr hepgoriad cymhwysedd modd presennol yn berthnasol lle bo hynny'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth cyfreithiol sifil sydd ar gael ar gyfer DAPOs ar gael ym Manyleb Cynllun DAPO Contract Sifil Safonol 2024 yn https://www.gov.uk/government/publications/standard-civil-contract-2024. Gall darparwyr troseddau wneud cais am gymorth cyfreithiol sifil ar gyfer DAPOs o dan ddarpariaethau Gwaith Sifil Cysylltiedig Contract Troseddu Safonol 2025 a gallant ddod o hyd i ganllawiau ar sut i wneud cais am gymorth cyfreithiol sifil yn https://legalaidlearning.justice.gov.uk/domestic-abuse-protection-orders-dapo-application-guidance/.

Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Mae cymorth cyfreithiol troseddol ar gael i gyflawnwyr honedig/cyflawnwyr ar gyfer gwneud, amrywio, diddymu ac apelio yn erbyn DAPO pan wneir y DAPO yn eu herbyn mewn achos troseddol (naill ai yn dilyn euogfarn neu ryddfarnu'r drosedd). Ym mhob amgylchiad arall, mae cymorth cyfreithiol sifil ar gael i'r cyflawnwr honedig/cyflawnwr ar gyfer gwneud, amrywio, diddymu ac apelio yn erbyn DAPO (gan gynnwys cais DAPO dan arweiniad yr heddlu yn y llys ynadon).

Mae cymorth cyfreithiol troseddol hefyd ar gael i gyflawnwyr honedig/cyflawnwyr am y tor-amodau canlynol:

- achos o dorri DAPN lle mae'r person yn cael ei arestio a'i remandio yn y ddalfa cyn y gwrandawiad DAPO. Pan fydd achos o dorri DAPN yn cael ei glywed ar yr un pryd â'r cais DAPO dan arweiniad yr heddlu, dim ond yr achos o dorri DAPN y gall cymorth cyfreithiol troseddol ei gwmpasu, a dim ond y cais DAPO y gall cymorth cyfreithiol sifil ei gwmpasu.

- achos o dorri DAPO sy'n cael ei erlyn fel trosedd o dan adran 39(1) y Ddeddf Cam-drin Domestig.
- achos o dorri DAPO yr ymdrinnir ag ef fel dirmyg llys.

Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth cyfreithiol troseddol sydd ar gael i gyflawnwyr honedig/cyflawnwyr ar gael ym:

- Manyleb Contract Troseddu Safonol 2025 yn https://www.gov.uk/government/publications/standard-crime-contract-2025
- Y Llawlyfr Asesu Biliau Troseddol yn https://www.gov.uk/guidance/funding-and-costs-assessment-for-civil-and-crime-matters
- Y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn https://www.gov.uk/government/publications/criminal-legal-aid-manual
- Ar gyfer achos o dorri DAPO yr ymdrinnir ag ef fel dirmyg llys, https://www.gov.uk/guidance/apply-for-legal-aid-for-civil-contempt-cases

Amodau ar gyfer gwneud DAPO

Mae DAPO yn orchymyn a wneir er mwyn diogelu dioddefwr rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig fel y'i diffinnir yn Adran 1 Deddf Cam-drin Domestig 2021 ac:

a) Mae'n gwahardd y cyflawnwr rhag cyflawni'r camau a nodir yn y gorchymyn;

b) Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflawnwr gydymffurfio â'r camau a nodir yn y gorchymyn.

Gall llys wneud DAPO os yw'r (Adran 32):

a) **Cyflawnwr yn 18 oed** neu'n hŷn ac wedi bod yn ymosodol tuag at **berson 16 oed** neu hŷn y mae ganddo gysylltiad personol ag ef[3];

b) Mae'r llys o'r farn bod y DAPO yn **angenrheidiol ac yn gymesur** i amddiffyn y person rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, a gyflawnir gan y cyflawnwr.

Mae DAPO yn orchymyn sifil ac felly **nid oes angen euogfarn flaenorol** i'r llys wneud DAPO nac i'r heddlu wneud cais.

Nid oes ots a ddigwyddodd yr ymddygiad camdriniol yng Nghymru, Lloegr neu rywle arall (adran 32(4)).

Gwneud DAPO heb rybudd

Gall y llys wneud DAPO yn erbyn y cyflawnwr heb i'r cyflawnwr gael rhybudd am yr achos os yw'r llys o'r farn bod hynny yn gyfiawn ac yn gyfleus er mwyn amddiffyn y dioddefwr (Adran 34). Noder, nid yw Adran 34 yn berthnasol i geisiadau DAPO a wneir gan yr heddlu yn dilyn DAPN lle nad oes gan yr heddlu gyfeiriad ar gyfer cyflwyno. Mewn achosion o'r fath, mae Adran 29(4) i (6) yn berthnasol.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud DAPO heb rybudd, rhaid i'r llys ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys:

[3] Mae Adran 2 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn diffinio'r term 'cysylltiad personol' fel dau berson sydd: (1) yn briod â'i gilydd, neu wedi bod yn briod â'i gilydd, (2) yn bartneriaid sifil, neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd, (3) wedi cytuno i briodi ei gilydd (ni waeth a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ers hynny), (4) wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio), (5) mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, (6) mae ganddynt, neu bu adeg pan oedd gan y naill a'r llall berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn, (7) yn berthnasau.

a) unrhyw risg y bydd y cyflawnwr yn achosi niwed sylweddol i'r dioddefwr os na wneir y DAPO ar unwaith;

b) a yw'n debygol y bydd y sawl a wnaeth gais am y DAPO yn cael ei rwystro neu ei atal rhag bwrw ymlaen â'r cais os na wneir y DAPO ar unwaith;

c) a oes rheswm dros gredu bod y cyflawnwr yn ymwybodol o'r achos ond ei fod yn osgoi cyflwyno rhybudd am y gwrandawiad yn fwriadol, ac y bydd yr oedi sy'n gysylltiedig â chyflwyno achos dirprwyol yn achosi anfantais ddifrifol i'r person y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud er mwyn ei amddiffyn.

Os bydd llys yn gwneud DAPO heb hysbysiad yn erbyn y cyflawnwr, rhaid i'r llys roi cyfle i'r cyflawnwr gyflwyno sylwadau am y DAPO cyn gynted ag sy'n "gyfiawn ac yn gyfleus", mewn gwrandawiad lle mae pob parti wedi cael rhybudd yn unol â rheolau'r llys.

Gwaharddiadau, cyfyngiadau a gofynion cadarnhaol

Darpariaethau allweddol

Rhaid i'r llys ystyried pa ofynion (os o gwbl) sy'n angenrheidiol i amddiffyn y person rhag yr ymddygiad camdriniol (Adran 35(2)). Disgwylir i'r darpariaethau a geisir gan yr heddlu yn eu ceisiadau DAPO adlewyrchu hyn. Gall ymddygiad camdriniol y cyflawnwr fod ar unrhyw un o'r ffurfiau a nodir yn y diffiniad o gam-drin domestig yn Adran 1 Deddf Cam-drin Domestig 2021, neu unrhyw gyfuniad ohonynt.

Gall llys osod darpariaethau yn y DAPO y mae'n credu sy'n angenrheidiol i amddiffyn y person y gwneir y gorchymyn diogelu ar ei gyfer. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys **gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion cadarnhaol.**

Gellir teilwra amodau gwaharddiadau/cyfyngiadau neu ofynion cadarnhaol i amddiffyn y dioddefwr a mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol y cyflawnwr fesul achos. Rhaid i'r cais am DAPO nodi'n effeithiol yr amodau y mae'r ceisydd yn credu sy'n angenrheidiol i amddiffyn y person rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, gan y cyflawnwr.

Mae **gwaharddiadau a chyfyngiadau** yn cynnwys gofynion fel gwahardd cyswllt, ardaloedd dan waharddiad a mynnu bod y cyflawnwr yn gadael y safle. Mae Adran 35 yn darparu rhestr anghyflawn o enghreifftiau o'r gofynion hynny.

Mae gofynion cadarnhaol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflawnwr weithredu. Gall y rhain fod yn seiliedig ar raglenni neu heb fod yn seiliedig ar raglenni. Gall llys osod unrhyw ofyniad cadarnhaol y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig. Mae'r

enghreifftiau yn y canllawiau hyn yn ddangosol ac nid ydynt yn cyfyngu ar y math o ofyniad cadarnhaol y gellir ei osod. Mae enghreifftiau o ofyniad sy'n seiliedig ar raglen yn cynnwys mynychu rhaglen newid ymddygiad, ymyriad iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, neu ofyniad nad yw'n seiliedig ar raglen fel tynnu cynnwys sy'n ymwneud â dioddefwr oddi ar y cyfryngau cymdeithasol neu ddychwelyd allweddi i eiddo.

Rhaid i ofynion DAPO, **cyn belled ag y bo'n ymarferol**, osgoi gwrthdaro â chredoau crefyddol y cyflawnwr, gwaith neu addysg y cyflawnwr, neu ofynion unrhyw orchymyn llys arall y mae'r cyflawnwr yn ddarostyngedig iddo. Fodd bynnag, os nad yw'n ymarferol osgoi'r gwrthdaro, yna gall y llys osod y gofyniad o hyd (Adran 36(1)).

Mae DAPO mewn grym am gyfnod penodol a bennir yn y gorchymyn, hyd nes y bydd digwyddiad penodol yn digwydd, neu hyd nes y gwneir gorchymyn pellach (Adran 38). **Gellir pennu cyfnodau gwahanol mewn perthynas â gwahanol ofynion DAPO.** Er mai'r llys sydd â'r gair olaf ynghylch y cyfnod y mae gorchymyn a'i ofynion unigol yn berthnasol iddo, gall ymarferwyr wneud argymhellion ynghylch hyd unrhyw ofynion DAPO.

Os yw'r cyflawnwr eisoes yn destun DAPO arall, gall y llys nodi y bydd y DAPO newydd yn dod i rym pan fydd y DAPO blaenorol yn dod i ben (Adran 38(2)). Fodd bynnag, os yw'r cyflawnwr yn destun gorchymyn diogelu arall, fel NMO, gellir gwneud DAPO o hyd ar yr amod nad yw amodau'r ddau orchymyn yn gwrthdaro, hyd y gŵyr y llys.

Mae gofyniad a osodir gan DAPO yn weithredol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod wedi'i gyfyngu'n benodol i ardal benodol (Adran 38(7)).

Gwaharddiadau

Gall DAPO osod amrywiaeth o ofynion (Adrannau 35(4) i (6)), fel:

a) gwahardd y cyflawnwr rhag cysylltu â'r dioddefwr (mae'r gofyniad hwn yn cofnodi cyswllt drwy unrhyw ddull, gan gynnwys dros y ffôn, drwy'r post, e-bost, neges destun SMS neu gyfryngau cymdeithasol);

b) gwahardd y cyflawnwr rhag dod o fewn pellter penodedig i unrhyw eiddo yng Nghymru a Lloegr lle mae'r dioddefwr yn byw. Gall DAPO hefyd wahardd y cyflawnwr rhag dod o fewn pellter penodedig i unrhyw adeilad a bennir gan y llys, neu unrhyw adeilad arall o ddisgrifiad penodol. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw fan lle gellir dod o hyd i'r dioddefwr yn gyffredin, fel man gwaith neu fan addoli'r dioddefwr.

c) lle mae'r dioddefwr a'r cyflawnwr yn byw yn yr un eiddo, gwahardd y cyflawnwr rhag troi allan neu gau'r dioddefwr allan o'r eiddo hwnnw, gwahardd y cyflawnwr rhag mynd i mewn i'r eiddo hwnnw, neu fynnu bod y cyflawnwr yn gadael yr eiddo hwnnw (adran 35(5)). Gellir gwneud y ddarpariaeth hon ni waeth pwy sy'n berchen ar yr eiddo neu'n ei rentu.

Caiff ceisydd geisio, a gall y llys wedyn osod, unrhyw ofynion yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i amddiffyn y person rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig gan y cyflawnwr. Nid yw'r enghreifftiau a roddir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn gynhwysfawr.

Er enghraifft, gall ceisydd hefyd geisio darpariaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol fel:

a) Cysylltu neu ryngweithio â'r dioddefwr drwy drydydd partïon. Er enghraifft, y plant, partner, aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr y dioddefwr;

b) Hacio, monitro neu reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, e-bost, ffôn, cyfrifiadur, neu ddyfeisiau personol eraill y dioddefwr;

c) Cymryd rhan mewn unrhyw fath o wyliadwriaeth ar y dioddefwr drwy unrhyw fodd: Er enghraifft, monitro'r dioddefwr drwy wyliadwriaeth drôn, dyfeisiau olrhain GPS, neu offer monitro digidol;

d) Ymyrryd â mynediad y dioddefwr at nwyddau, gwasanaethau neu eiddo, neu gyfyngu ar hynny;

e) Difrodi neu fygwth difrodi eiddo sy'n eiddo i'r dioddefwr;

f) Canslo neu gaffael nwyddau neu wasanaethau yn enw neu yng nghyfrif y dioddefwr, neu gael biliau neu ddyledion yn fwriadol yn enw'r dioddefwr (boed y dioddefwr yn gwybod hynny neu beidio);

g) Ymyrryd â, cyfyngu ar fynediad y dioddefwr at, neu rwystro'n fwriadol waredu asedau ar y cyd;

h) Rhannu neu gyhoeddi, neu fygwth rhannu neu gyhoeddi, gwybodaeth bersonol neu ddelweddau sy'n ymwneud â'r dioddefwr;

i) Creu deunydd synthetig neu ddeunydd wedi'i fanipiwleiddio ar-lein sy'n ymwneud â'r dioddefwr;

j) Cyfeirio at y dioddefwr ar gyfryngau cymdeithasol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;

k) Cam-drin neu fygwth cam-drin anifeiliaid sy'n eiddo i'r dioddefwr neu'r cyflawnwr

l) Defnyddio technoleg i olrhain, monitro, aflonyddu, rheoli neu ddychryn y dioddefwr, gan gynnwys drwy feddalwedd ysbïo, rhaglenni rhannu lleoliad, dyfeisiau cartref clyfar, systemau tracio cerbydau neu dechnolegau cysylltiedig eraill.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Gofynion cadarnhaol

O dan adran 35 y Ddeddf Cam-drin Domestig, gall DAPO osod gofyniad cadarnhaol sy'n mynnu bod y cyflawnwr yn cymryd cam penodol. Gellir gosod gofynion cadarnhaol ochr yn ochr â gwaharddiadau lle mae'r llys o'r farn eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig.

Fel yr esboniwyd uchod, gall gofynion cadarnhaol fod yn seiliedig ar raglenni neu heb fod yn seiliedig ar raglenni. Mae newidiadau deddfwriaethol a wnaed drwy adran 142 Deddf Troseddu a Phlismona 2026 yn mewnosod adrannau 5A a 5B newydd yn adran 35 y Ddeddf Cam-drin Domestig (gofynion cadarnhaol sy'n seiliedig ar raglenni). Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i'r llys wneud DAPO yn y gwrandawiad cyntaf, ei gwneud yn ofynnol i'r cyflawnwr fynychu asesiad addasrwydd, ac yn cynnwys gofyniad rhaglen a ddaw i rym os asesir yn ddiweddarach bod y cyflawnwr yn addas. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym adeg cyflwyno.

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer ceisiadau DAPO dan arweiniad yr heddlu a DAPOs a wneir mewn achosion troseddol y mae gofynion sy'n seiliedig ar raglenni ar gael. **O'r adeg cyflwyno, ni fydd llysoedd teulu a sifil yn gallu gosod gofynion cadarnhaol sy'n seiliedig ar raglenni gan nad oes mecanwaith cyfeirio ar hyn o bryd.** Mewn achosion teulu a sifil, felly, dim ond gofynion heb fod yn seiliedig ar raglenni sydd wedi'u teilwra i amgylchiadau'r achos y gall gofynion cadarnhaol eu cynnwys.

Mae'r heddlu'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r holl ofynion cadarnhaol a osodir fel rhan o DAPO, gan gynnwys gofynion cadarnhaol nad ydynt yn seiliedig ar raglenni. Cyn cynnig gofyniad, dylid ystyried a oes modd monitro cydymffurfiad yn briodol a sut byddai unrhyw amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei nodi a'i reoli.

Mae rhagor o fanylion ar gael yng nghanllawiau statudol yr heddlu.

Gofynion monitro electronig

Mae'r Ddeddf DA yn rhoi'r pŵer i lysoedd osod gofynion monitro electronig ("tagio") fel rhan o DAPO.

Gellir defnyddio monitro electronig i gefnogi'r gwaith o fonitro cydymffurfiad â gofynion DAPO penodol (fel ardaloedd dan waharddiad a chyrffyw) pan fydd y llys o'r farn bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur.

Nid yw'r seilwaith sydd ei angen i ddarparu monitro electronig ar gael yn gyson eto ledled Cymru a Lloegr. O ganlyniad, nid yw monitro electronig ar gael eto ar gyfer DAPOs.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru unwaith y bydd fframwaith cyson ar gyfer gweithredu monitro electronig ar gyfer DAPOs ar waith ledled Cymru a Lloegr.

Gofynion hysbysu gorfodol

Cwmpas y gofynion hysbysu

Mae cyflawnwr sy'n destun DAPO yn ddarostyngedig yn awtomatig i **ofynion hysbysu gorfodol o ran enw a chyfeiriad** (Adran 41). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybod i'r heddlu am eu henw(au) (gan gynnwys unrhyw enwau eraill) a'u cyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir y DAPO. Rhaid rhoi gwybod i'r heddlu hefyd am unrhyw newidiadau i enw neu gyfeiriad o fewn tri diwrnod i'r digwyddiad. Bydd gwybodaeth o'r fath yn helpu'r heddlu i fonitro cydymffurfiad â'r DAPO ac i reoli'r risgiau a berir gan y cyflawnwr.

Pan fydd cyflawnwr yn bresennol yn y gwrandawiad, mae'r cyfnod o dri diwrnod ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion hysbysu yn dechrau ar y diwrnod y gwneir y DAPO (Adran 41). Pan wneir DAPO heb rybudd, mae adran 39(2) yn darparu na ellir trin cyflawnwr fel pe bai wedi torri'r gorchymyn oni bai ei fod yn ymwybodol o'i fodolaeth adeg y tor-amod honedig.

Diffinnir "cyfeiriad cartref" yn adran 56 fel:

a) cyfeiriad unig breswylfa neu brif breswylfa'r person yn y Deyrnas Unedig, neu

b) os nad oes gan y person breswylfa o'r fath -

   i. cyfeiriad neu leoliad man yn y Deyrnas Unedig lle gellir dod o hyd i'r person yn rheolaidd;

   ii. os oes mwy nag un man o'r fath, cyfeiriad neu leoliad pa un bynnag o'r mannau hynny y mae'r person yn ei ddethol.

Nid yw'r gofynion hysbysu'n berthnasol pan fo'r cyflawnwr eisoes yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu (Adran 41(8)):

a) a osodwyd gan DAPO arall; neu

b) o dan Ran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003; neu

c) o dan Adran 9 Deddf Diogelu rhag Stelcio 2019.

Os yw'r cyflawnwr yn peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r gofynion hysbysu hynny cyn i DAPO ddod i ben, y terfyn amser ar gyfer hysbysu fyddai tri diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae'r cyflawnwr yn peidio â bod yn ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu eraill (h.y. gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r gorchymyn neu'r gorchmynion eraill i ben) (Adran 41(9)).

Mae'r rhwymedigaethau hyn ar y cyflawnwr yn cael effaith fel unrhyw ofyniad arall a osodir gan y DAPO.

Troseddau'n ymwneud â hysbysu

Mae'n drosedd os yw'r cyflawnwr yn methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu neu os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn ffug

Mae'n drosedd os yw'r cyflawnwr yn methu, heb esgus rhesymol, â chaniatáu i'r swyddog sy'n cael ei hysbysiad wirio pwy ydyw drwy gymryd ei olion bysedd a/neu ei lun.

Y gosb fwyaf yw 5 mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau.

Dim ond unwaith y gellir erlyn unigolyn am yr un cyfnod o ddiffyg cydymffurfio.

Amrywio neu ddiddymu DAPO

Gellir cyflwyno cais i amrywio neu ddiddymu DAPO gan (Adran 44 (1-3)):

a) Y person y gwnaed y gorchymyn er mwyn ei amddiffyn;

b) Y person y gwnaed y gorchymyn yn ei erbyn, y cyflawnwr;

c) Lle gwnaed y gorchymyn o dan adran 28, y person a wnaeth gais am y gorchymyn;

d) Prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw ardal heddlu lle mae'r cyflawnwr yn byw;

e) Prif swyddog heddlu unrhyw heddlu arall ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod y cyflawnwr yn yr ardal heddlu honno neu'n bwriadu dod iddi.

Rhaid gwneud y cais i amrywio neu ddiddymu'r DAPO i'r llys priodol, sy'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau y gwnaed y DAPO yn wreiddiol ynddynt. Mae hyn yn amodol ar rai eithriadau (Adran 45 (1-3)).

Pan wnaed DAPO yn y llys teulu, gall achos mewn perthynas ag amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn hwnnw ddigwydd mewn unrhyw leoliad lle mae'r llys teulu'n eistedd.

Gall y llys hefyd amrywio neu ddiddymu'r DAPO o'i wirfodd ei hun (Adran 44(2)(b)) mewn unrhyw achos lle gallai wneud DAPO ar ei liwt ei hun (adran 29).[4]

Mae rheolau'r llys yn nodi pwy ddylai gyflwyno'r gorchymyn. Mae'r Rheolau'n wahanol yn dibynnu ar ba lys wnaeth y gorchymyn gwreiddiol. Mewn achosion dan arweiniad yr heddlu sy'n cael eu cynnal yn y llys ynadon, yr heddlu sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gorchymyn i'r cyflawnwr.

Pan fydd DAPO wedi cael ei amrywio heb rybudd, rhaid ei gyflwyno i'r cyflawnwr cyn y gellir ei orfodi.

Ni fydd cyflawnwr sy'n torri amodau DAPO amrywiol wedi cyflawni trosedd oni bai a nes ei fod yn ymwybodol bod yr amrywiad wedi'i wneud, ac, os na fyddai ei ymddygiad, yn absenoldeb yr amrywiad, wedi bod yn drosedd (Adran 45(9)).

Wrth benderfynu a ddylid amrywio neu ddiddymu DAPO, rhaid i'r llys glywed gan brif swyddog yr heddlu, os ydynt yn dymuno cael eu clywed (adran 44(4)(a) a (5)):

a) pwy wnaeth gais am y DAPO;

b) ar gyfer ardal yr heddlu lle mae'r cyflawnwr yn byw, neu lle maent yn credu mae'r cyflawnwr neu'n bwriadu dod iddo, **hyd yn oed os nad oedd wedi gwneud cais am y DAPO yn wreiddiol**.

Rhaid i'r llys glywed gan y dioddefwr, mewn achosion lle mae'r dioddefwr yn ceisio diddymu'r DAPO, dileu unrhyw ofynion, neu wneud unrhyw un o'r gofynion yn llai beichus ar y cyflawnwr (Adran 44 (4)(b)). Mae hyn yn gwarchod rhag amgylchiadau lle mae'r dioddefwr yn cael ei orfodi gan y cyflawnwr i amrywio neu ddiddymu'r DAPO.

Mae'r darpariaethau hyn yn golygu, pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, bod yr heddlu'n dal i allu cyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol a allai fod ganddynt ynghylch lefel y risg a berir i'r dioddefwr gan y cyflawnwr neu natur eu hymddygiad camdriniol, hyd yn oed pan nad yw'r heddlu wedi bod yn ymwneud â'r achos o'r blaen (er enghraifft, os nad nhw oedd y parti a wnaeth gais am y DAPO).

[4]Mae Adran 29 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn darparu y gall y llys wneud DAPO ar ei liwt ei hun yn ystod achosion teulu, troseddol neu sifil eraill.

Os yw'r llys yn fodlon bod amrywio'r DAPO yn angenrheidiol i amddiffyn y person rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig, gellir amrywio'r DAPO er mwyn:

a) Gosod gofynion ychwanegol ar y cyflawnwr; neu

b) Ymestyn hyd y DAPO, neu hyd gofynion penodol.

Dim ond os yw'n fodlon nad yw'r gofyniad yn angenrheidiol mwyach i amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig neu beryglu eu diogelwch y gall y llys ddileu gofyniad penodol, neu wneud y gofyniad hwnnw'n llai beichus i'r cyflawnwr.

Os yw'n ymddangos i'r llys nad yw unrhyw amodau angenrheidiol ar gyfer gosod gofyniad yn cael eu bodloni mwyach, ni chaiff y llys ymestyn y gofyniad hwnnw a rhaid iddo ddileu'r gofyniad hwnnw.

Dim ond os yw'n fodlon nad yw'r DAPO yn angenrheidiol mwyach i amddiffyn y person rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig neu o beryglu eu diogelwch y gall y llys ddiddymu'r DAPO.

Gellir amrywio DAPO heb rybudd mewn amgylchiadau eithriadol neu frys (Adran 44(7) ac adran 34). Fodd bynnag, rhaid rhoi cyfle i'r cyflawnwr, cyn gynted ag y bo hynny'n gyfiawn ac yn gyfleus, gyflwyno sylwadau am yr amrywiad mewn gwrandawiad dychwelyd ar rybudd.

Hysbysiadau gan y llys teulu a sifil

Ar gyfer DAPOs a wneir yn y llysoedd teulu a sifil, ni fydd yr heddlu'n rhan o'r achos llys. Er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n ymwybodol o DAPOs a wneir yn y llysoedd teulu a sifil:

- Yn y llys teulu, bydd yr holl orchmynion yn cael eu hysbysu'n awtomatig i'r heddlu i roi gwybod bod DAPO wedi cael ei wneud.
- Yn y llys sifil, bydd pob gorchymyn yn cael ei anfon â llaw at yr heddlu drwy e-bost gan y llys.

Disgwylir i'r heddlu adolygu'r DAPO ar ôl ei dderbyn gan sicrhau gweithgarwch diogelu, rheoli risg a gorfodi priodol lle bo hynny'n briodol.

Torri amodau DAPO

Mae'n drosedd i gyflawnwr dorri amodau DAPO heb esgus rhesymol. Gallai tor-amod olygu gwneud unrhyw beth sydd wedi'i wahardd gan y DAPO neu fethu â gwneud rhywbeth sy'n ofynnol gan y DAPO.

Mae troseddau sy'n ymwneud â DAPO yn cynnwys:

a) torri unrhyw ofyniad mewn DAPO heb esgus rhesymol (Adran 39 (1));

b) methiant i gydymffurfio â gofynion hysbysu heb esgus rhesymol neu ddarparu gwybodaeth ffug i'r heddlu'n fwriadol (Adran 43 (1-2));

c) methu cydymffurfio â rhwymedigaethau mewn perthynas â gofynion monitro electronig (Adran 37(8)).

Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio i achos o dorri amodau unrhyw DAPO y rhoddir gwybod amdano, ni waeth a wnaeth yr heddlu gais am y DAPO hwnnw ai peidio. Mae torri amodau DAPO yn drosedd, ni waeth ym mha lys y gwnaed y gorchymyn na phwy wnaeth y cais gwreiddiol. Disgwylir i'r heddlu drin pob achos o dorri amodau DAPO o ddifrif a chymryd camau priodol yn unol ag amgylchiadau'r achos.

Mewn achosion lle mae'r cyflawnwr yn destun rheolaeth prawf mewn perthynas â throsedd arall, a bod amodau DAPO yn cael eu torri, yr heddlu sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r gwasanaeth prawf. Dylai'r broses rhannu gwybodaeth hon fod yn ddwyochrog.

Lle gwnaed y DAPO yn erbyn y cyflawnwr heb rybudd, dim ond mewn perthynas ag ymddygiad a ddigwyddodd ar adeg pan oedd y cyflawnwr yn ymwybodol o fodolaeth y DAPO y mae'r cyflawnwr yn cyflawni trosedd (Adran 39(2)). Ni fydd cyflawnwr yn cyflawni trosedd oni bai a nes ei fod yn ymwybodol bod yr amrywiad wedi'i wneud, ac, os na fyddai ei ymddygiad, yn absenoldeb yr amrywiad, wedi bod yn drosedd (Adrannau 45(8-9)).

Y gosb uchaf am dorri amodau DAPO yw uchafswm y carchariad sydd ar gael yn y llys ynadon, dirwy, neu'r ddau, ar euogfarn ddiannod; neu bum mlynedd a mwy o garchar, dirwy, neu'r ddau, ar euogfarn ar dditiad (Adran 39 (5)).

Os ceir person yn euog o dorri amodau DAPO (Adrannau 39 (6-7)), darparu nad yw'n agored i'r llys wneud gorchymyn am ryddhad amodol.

Delio â thor-amod fel dirmyg llys sifil

Gellir ymdrin â thorri amodau DAPO fel dirmyg llys sifil. Mae dirmyg llys sifil yn broses gorfodi yn y llys a ddefnyddir pan honnir bod unigolyn wedi methu â chydymffurfio â gorchymyn llys. Nid yw hyn yn berthnasol i orchymyn a wneir gan lys

ynadon nad oes ganddo'r pŵer i gosbi am ddirmyg sifil. Felly, dylid delio ag achosion o dorri gorchmynion llysoedd ynadon bob amser drwy arestio a chyhuddo am y trosedd.

Os nad yw'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd ar drywydd cyhuddiadau troseddol ar ôl torri amodau DAPO, efallai y bydd y dioddefwr a phartïon eraill yn yr achos (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) yn gallu dwyn achos yn erbyn y cyflawnwr fel dirmyg llys mewn achos sifil.

Gall delio â thorri amodau DAPO fel mater sifil fod yn briodol mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr eisiau i'r cyflawnwr gael ei droseddoli, er enghraifft os yw'n dymuno parhau â'u perthynas â'r cyflawnwr.

Gall y dioddefwr, y sawl a wnaeth gais am y DAPO unigol, neu unrhyw un arall sydd â chaniatâd y llys wneud cais i'r llys a wnaeth y DAPO am warant arestio os ydynt o'r farn bod y cyflawnwr wedi torri amodau'r DAPO neu fel arall yn cyflawni dirmygu llys mewn perthynas â'r DAPO (Adran 40 (3)). Unwaith y bydd y cyflawnwr wedi cael ei arestio a'i ddwyn gerbron y llys, gall y llys naill ai ddelio â'r dirmyg llys yn y fan a'r lle neu remandio'r cyflawnwr, boed yn y ddalfa neu ar fechnïaeth, er mwyn ymdrin â'r achos yn ddiweddarach.

Pan geir y cyflawnwr yn euog o dorri amodau DAPO mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad, ni ellir cosbi'r un ymddygiad hwnnw fel dirmyg llys (Adran 39 (3)).

Os canfuwyd bod y cyflawnwr yn dirmygu'r llys mewn perthynas â'r DAPO, ni ellir ei gael yn euog o dorri amodau DAPO mewn perthynas â'r un ymddygiad (Adran 39 (4)).

Tor-amod sy'n digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr

Mae Rhan 3 Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. Mae hyn yn golygu nad yw'n rhan o gyfraith yr Alban, Gogledd Iwerddon nac unrhyw wlad arall ac nad yw'n gallu cynhyrchu unrhyw effaith gyfreithiol y tu allan i Gymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae Adran 38 yn darparu bod gofyniad a osodir gan DAPO yn cael effaith ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod wedi'i gyfyngu'n benodol i ardal benodol. Mae hyn yn golygu y bydd gweithred neu ymddygiad sy'n torri amodau DAPO, hyd yn oed os caiff ei gyflawni yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, yn drosedd yng Nghymru a Lloegr.

Apeliadau

Mae Adrannau 46 a 47 yn nodi darpariaethau apelio.

Crynodeb o'r amgylchiadau lle gellir apelio yn erbyn DAPO:

Person a gaiff apelio	**DAPO o dan Adran 28 Deddf Cam-drin Domestig 2021 - gan gynnwys ar ôl rhoi DAPN**	**DAPO a wnaed ar gynnig y llys ei hun o dan Adran 31 Deddf Cam-drin Domestig 2021 fel rhan o achos arall**	**DAPO o dan Adran 44 Deddf Cam-drin Domestig 2021**
Y dioddefwr	✓	Gweler troednodyn[5]	✓
Y person a wnaeth y cais (os yw'n wahanol)	✓	Amh	✓
Y diffynnydd/cyflawnwr	✓ (os gwneir y DAPO)	✓	✓
Prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal yr heddlu lle mae'r cyflawnwr yn byw, neu lle mae'n credu bod y cyflawnwr yn byw neu'n bwriadu dod iddi. **Sylwch, ar gyfer y cynllun peilot, dim ond pan fydd y cyflawnwr yn byw mewn ardal heddlu sy'n rhan o'r cynllun peilot y bydd hyn yn berthnasol.**	X	X	✓

Rhaid gwneud yr apêl i'r llys priodol, sy'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau lle gwnaed y DAPO neu'r penderfyniad perthnasol mewn perthynas â'r DAPO:

a) Os cafodd y DAPO, neu'r penderfyniad mewn perthynas â'r DAPO, ei wneud gan lys ynadon, rhaid gwneud yr apêl i Lys y Goron (adran 46(7)(a));

b) Os cafodd y DAPO, neu'r penderfyniad mewn perthynas â'r DAPO, ei wneud gan Lys y Goron, rhaid i'r apêl gael ei gwneud i'r Llys Apêl (adran 46(7)(b));

c) Gwrandewir apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan lysoedd eraill (y llys teulu, y llys sirol neu'r Uchel Lys) yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, a nodir yn Adran 46(9).

[5]Nid yw'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn nodi'n benodol y gall y dioddefwr apelio yn erbyn penderfyniad y llys sy'n ymwneud â DAPO a wnaed ar gynnig y llys ei hun o dan Adran 31 oherwydd bod hwn yn hawl apelio gyffredinol sydd eisoes ar gael i'r dioddefwr yn rhinwedd deddfwriaeth arall, fel yr un a restrir yn Adran 46(9).

Cyn penderfynu ar apêl mewn perthynas â DAPO, rhaid i'r llys glywed gan brif swyddog yr heddlu, os ydynt yn dymuno cael eu clywed:

a) Lle gwnaed y DAPO ar gais gan brif swyddog yr heddlu, y prif swyddog hwnnw;

b) Y prif swyddog o ardal yr heddlu lle mae'r cyflawnwr yn byw, neu lle maent yn credu mae'r cyflawnwr neu'n bwriadu dod iddo, **hyd yn oed os nad oedd wedi gwneud cais am y DAPO yn wreiddiol**.

Mae'r darpariaethau hyn - yn benodol Adrannau 46(5) a 47(1) - yn golygu, pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, bod yr heddlu'n dal i allu apelio yn erbyn penderfyniad i amrywio neu ddiddymu DAPO, neu i gael eu clywed mewn perthynas ag apêl sy'n ymwneud â DAPO, hyd yn oed pan nad oeddent wedi gwneud cais am y DAPO hwnnw yn wreiddiol. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol a allai fod ganddynt ynghylch lefel y risg a berir i'r dioddefwr gan y cyflawnwr neu natur eu hymddygiad camdriniol, hyd yn oed pan gafwyd y DAPO gwreiddiol drwy lwybr gwahanol neu nad yw'r heddlu wedi bod yn ymwneud â'r achos o'r blaen.

Mae adran 47(4) yn nodi beth all ddigwydd o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y llys yn cadarnhau, yn amrywio neu'n dirymu unrhyw ran o'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, neu'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r llys is ac yn ei gyfarwyddo i ailystyried ei benderfyniad.

Sut mae DAPOs yn cyd-fynd â'r dirwedd gorchmynion bresennol

Mae DAPO yn dod â'r elfennau cryfaf o orchmynion diogelu presennol at ei gilydd mewn un gorchymyn newydd. Er enghraifft, o'i gymharu â DVPOs, nid yw DAPOs wedi'u cyfyngu o ran amser i uchafswm o 28 diwrnod ac mae'r tor-amod yn drosedd. O'i gymharu â NMOs, mae gan DAPOs ystod ehangach o amodau y gellir eu gosod. Mae DAPOs yn ymgorffori rhai nodweddion sy'n fwy cyffredin yn y gofod troseddol, fel tagio electronig, gorfodi presenoldeb ar raglenni newid ymddygiad a hysbysu gorfodol i'r heddlu am enw a chyfeiriad y cyflawnwr, mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol ar hyn o bryd i droseddau rhyw penodol, ac mae'n rhan o'r SPO. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae DAPOs yn cymharu â gorchmynion presennol ar ffurf crynodeb:

	Awdurdodaethau lle maent ar gael	Pwy all wneud cais / gwneud gorchymyn	Amodau y gellir eu gosod	Hyd	Tor-amod

DVPOs	Llys Ynadon (achosion sifil)	heddlu	Cyfyngiadau a gwaharddiadau	Uchafswm o 28 diwrnod	Sifil
ROs	Llys Ynadon neu Lys y Goron (achosion troseddol)	Gwasanaeth Erlyn y Goron (fel arfer yn gweithio gyda'r heddlu), y llys ar ei liwt ei hun	Cyfyngiadau a gwaharddiadau	Dim terfyn penodol	Trosedd
Gwaharddebau sifil	Y Llys Sirol neu'r Uchel Lys	Dioddefwr	Cyfyngiadau a gwaharddiadau	Dim terfyn penodol	Trosedd
SPOs	Llys Ynadon (achosion sifil)	Yr Heddlu	Cyfyngiadau a gwaharddiadau Gofynion cadarnhaol Hysbysiad gorfodol	Dim terfyn penodol	Trosedd
NMOs/OOs	Teulu	Dioddefwr	Cyfyngiadau a gwaharddiadau Rhai rhwymedigaethau cadarnhaol mewn perthynas ag eiddo (OOs)	Dim terfyn penodol	NMOs – trosedd, OOs – Sifil
DAPOs	**Teulu** (annibynnol ac mewn achosion eraill sy'n mynd rhagddynt - llys teulu neu adran Deulu'r Uchel Lys) **Sifil** - llys sirol mewn achosion eraill sy'n mynd rhagddynt) **Ynadon** (achosion sifil, annibynnol neu yn dilyn DAPN) **Llys Ynadon a Llys y Goron** (mewn achosion troseddol sy'n mynd rhagddynt neu dorri amodau DAPO)	Y dioddefwr a, thrydydd partïon â chaniatâd, yn y llys teulu Yr Heddlu yn y Llys Ynadon Y Llys ar ei gynnig ei hun mewn achosion teulu, sifil a throseddol Ar gais y person, i'w amddiffyn mewn	Cyfyngiadau a gwaharddiadau Gofynion cadarnhaol Monitro electronig Hysbysiad gorfodol o enw a chyfeiriad	Dim terfyn penodol	Trosedd

		achosion teulu a sifil (sirol) sy'n mynd rhagddynt			

Cymharu DAPOs yn fanwl â Gorchmynion Peidio â Molestu a Gorchmynion Meddiannaeth

Er nad yw NMOs yn cael eu diddymu am y tro, ein bwriad yw newid yn raddol o'r gorchmynion hyn i DAPOs.

Mae nifer o wahaniaethau cymharol gynnil rhwng NMOs a Gorchmynion Meddiannaeth a DAPOs. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u nodi uchod, mewn perthynas â llwybrau lluosog i wneud cais am DAPO ac amodau y gellir eu gosod, ond mae eraill yn fwy penodol, fel y nodir isod.

Plant

Mae'r prif wahaniaeth yn ymwneud â sut y gellir amddiffyn plant. Mae NMOs yn caniatáu i blant gael eu hamddiffyn yn uniongyrchol mewn dwy ffordd - gall plant dan 16 oed gyflwyno ceisiadau eu hunain gyda chaniatâd y llys, a gall ymgeiswyr sy'n oedolion gynnwys 'plant perthnasol' yn eu cais.

Dim ond unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn, o dan adran 32(2) y Ddeddf Cam-drin Domestig, y gall DAPOs ei amddiffyn. Ni all unrhyw un dan 16 oed gael ei amddiffyn yn uniongyrchol gan DAPO, ond mae'n rhaid i'r llys ystyried lles unrhyw blentyn y mae'n ystyried bod ei fuddiannau'n berthnasol i wneud y gorchymyn, o dan adran 33(1)(a).. Nid oes rhaid i'r plentyn hwn fod â chysylltiad personol â'r cyflawnwr. Mae hyn yn golygu y gall plant gael eu hamddiffyn yn anuniongyrchol gan DAPO, drwy warchodaeth a roddir i'r ceisydd, er enghraifft os yw'r cyflawnwr wedi'i wahardd rhag dod yn agos at gartref y dioddefwr a bod y plentyn yn byw gyda'r dioddefwr, byddant yn elwa o'r amddiffyniad hwnnw.

Mae Adran 3 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn darparu bod unrhyw blentyn sy'n dyst i gam-drin domestig yn cael ei drin fel dioddefwr cam-drin domestig. Gan mai dim ond unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn y gall DAPO ei amddiffyn yn uniongyrchol, mae hyn yn golygu y gall plentyn 16 oed neu hŷn wneud cais am DAPO i amddiffyn ei hun rhag y math hwn o gam-drin, ar yr amod ei fod yn perthyn i'r person sy'n cael ei gam-drin neu'r cyflawnwr.

Os oes angen amddiffyn plentyn yn uniongyrchol, bydd yn rhaid i geisydd wneud cais am orchymyn llys arall - gall hwn fod yn orchymyn cyswllt/preswylio/gorchymyn camau gwaharddedig dan adran 8 Deddf Plant 1989, neu mewn rhai achosion efallai y bydd yn dal yn fwy priodol cael NMO.

Fodd bynnag, mae adran 52 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn gwneud darpariaeth i'r llys amddiffyn plant yn ogystal â dioddefwyr sy'n oedolion ar yr un pryd mewn rhai achosion. Mae **is-adran (1)** yn mewnosod cyfeiriad at Ran 3 Deddf DA yn adran 8(4) Deddf Plant 1989. Drwy wneud hynny, mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn diwygio Deddf Plant 1989 i ddarparu bod achosion o dan Ran 3 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn "achosion teulu" at ddibenion Deddf Plant 1989. Effaith y diwygiad hwn yw galluogi barnwr (sy'n eistedd yn y llys teulu neu Adran Deulu'r Uchel Lys) i wrando ar gais i wneud neu amrywio DAPO i wneud gorchymyn gofal interim, neu arfer pwerau eraill sydd ar gael i'r llys o dan Ddeddf Plant 1989, yn yr un set o achosion. Mae hyn yn gwella gallu'r llys i amddiffyn plant sy'n dod i gysylltiad â cham-drin domestig pan fyddant yn delio â cham-drin o'r fath, a heb fod angen cychwyn ceisiadau ar wahân ac achosion newydd (fel y byddai'n digwydd fel arall). Mae **is-adran (2)** yn mewnosod cyfeiriad at Ran 3 Deddf DA yn adran 63(2) Deddf Cyfraith Teulu 1996. Drwy wneud hynny, mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn diwygio'r diffiniad o "achos teulu" at ddibenion Rhan 4 Deddf Cyfraith Teulu 1996 i gynnwys achosion o dan Ran 3 y Ddeddf Cam-drin Domestig yn y diffiniad. Effaith y diwygiad hwn yw galluogi barnwr (sy'n eistedd yn y llys teulu neu Adran Deulu'r Uchel Lys) i wrando ar gais i wneud neu amrywio DAPO i wneud gorchymyn meddiannaeth neu NMO, neu orchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod yn yr un set o achosion.

Yn olaf, o dan adran 31(2) y Ddeddf Cam-drin Domestig, gall Adran Deulu'r Uchel Lys neu'r llys teulu ar ei liwt ei hun wneud gorchymyn diogelu rhag cam-drin domestig mewn unrhyw achos teulu y byddai'r cyflawnwr a'r person y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud er mwyn ei ddiogelu yn bartïon iddo. Mae hyn yn galluogi llys teulu i wneud DAPO yn ystod achosion sy'n mynd rhagddynt (er enghraifft achosion plant) pan fydd y llys, yn ystod achosion o'r fath, yn dod yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn unigolyn rhag cam-drin domestig. O dan adran 28(7) y Ddeddf Cam-drin Domestig, gall dioddefwr hefyd wneud cais am DAPO mewn unrhyw achos teulu o'r fath sy'n mynd rhagddo.

Diffiniad o gam-drin domestig

O'i gymharu â DVPOs ac NMOs, mae DAPO yn dibynnu ar ddiffiniad llawer ehangach o gam-drin domestig, sy'n cynnwys pob math o gam-drin, fel y nodir o dan adran 1 y Ddeddf Cam-drin Domestig.

Diffiniad o 'gysylltiad personol' o'i gymharu â 'person cysylltiedig'

Mae diffiniad Adran 2 y Ddeddf Cam-drin Domestig o 'gysylltiad personol' yn debyg iawn i ddiffiniad Deddf Cyfraith Teulu 1996 o 'berson cysylltiedig'. Y prif wahaniaeth

yw nad oes angen profi mwyach bod perthynas am ‘gyfnod arwyddocaol’ wedi bod ac nid oes gofyniad bod y partïon wedi byw gyda’i gilydd erioed, ar yr amod bod y berthynas wedi bod yn ‘berthynas bersonol agos’. Nid yw byrddwyr neu letywyr anghysylltiedig yn rhan o ddiffiniad y Ddeddf Cam-drin Domestig ychwaith.

DAPOs a Gorchmynion Meddiannaeth

Gall DAPOs gynnwys amodau sy’n ymwneud ag eiddo neu fynediad unigolyn at eiddo lle mae’r llys o’r farn bod yr amodau hynny’n angenrheidiol i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig neu’r risg o gam-drin domestig.

Fodd bynnag, nid yw DAPOs yn dyblygu’r holl ddarpariaethau sydd ar gael o dan Orchymyn Meddiannaeth. Mae Gorchmynion Meddiannaeth yn cynnwys pwerau penodol sy’n ymwneud â meddiannu cartref teuluol a gallant reoleiddio hawliau eiddo a meddiannu dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

Defnyddio ymgymeriadau

Nid yw achosion DAPO yn darparu’n benodol ar gyfer ymgymeriadau fel dewis arall yn lle DAPO yn yr un modd ag y mae achosion NMO.

Cafodd DAPOs eu dylunio i ddarparu fframwaith cyson a gorfodadwy ar gyfer diogelu dioddefwyr. Pan fodlonir y prawf statudol ar gyfer gwneud DAPO a bod y llys o’r farn bod angen gorchymyn, rhaid iddo benderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn yn hytrach na derbyn ymgymeriad gan y cyflawnwr.

Tabl cryno o gymhariaeth NMO Vs DAPO

	NMOs / OOs	DAPOs
Diffiniad o gam-drin	Mae ‘molestu’ wedi cael ei ddehongli’n fras mewn cyfraith achosion a gall gynnwys: - Gweithredoedd a bygythiadau o drais - Ymddygiad yr ystyrir ei fod yn gymaint o aflonyddu fel bod ymyriad y llys yn ofynnol	Diffiniad statudol o gam-drin domestig: cam-drin corfforol neu rywiol, ymddygiad bygythiol neu dreisgar, ymddygiad sy’n rheoli neu’n gorfodi, cam-drin economaidd, a cham-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall (Adran 1 Y Ddeddf DA)
Pwy sy’n cael gwneud cais	Dioddefwr o unrhyw oed (ond mae plentyn dan 16 angen caniatâd y llys)	Dioddefwr 16 oed neu hŷn yn unig Unrhyw drydydd parti (sefydliad neu unigolyn) gyda chaniatâd y llys - adran 28(2)(d) y Ddeddf DA
Pwy sy’n gallu cael eu diogelu	Dioddefwr sy'n "gysylltiedig" (fel a ddiffinnir yn a.62 Deddf Cyfraith Teulu	Dioddefwr 16 oed a throsodd yn unig - adran 32(2) sydd â ‘chysylltiad personol’ (fel y’i diffinnir - adran 2 Deddf Cam-drin Domestig) â’r cyflawnwr

	1996) â'r cyflawnwr ynghyd ag unrhyw blant perthnasol (fel a diffinnir yn yr un adran).	
Yn erbyn pwy y gellir eu gwneud	Person o unrhyw oedran	Person 18 oed a throsodd
Amodau eraill	Cyfyngiadau a gwaharddiadau	Cyfyngiadau a gwaharddiadau ***plws*** • Gofyniad gorfodol i'r sawl sy'n destun DAPO roi gwybod i'r heddlu am ei enw, unrhyw enwau eraill, a'i gyfeiriad cartref ac unrhyw newidiadau i'r • rhain (a.41 Deddf Cam-drin Domestig) • Gofynion cadarnhaol (e.e. mynychu cwrs) • Monitro electronig i fonitro cydymffurfiad â gofynion